OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2023 Rhif 3 (Cy. 2)

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

## Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) (Diwygio) 2023

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) 2017 ("Rheoliadau 2017") (O.S. 2017/113 (Cy. 39)) yn darparu ar gyfer cynnwys hysbysiadau galw am dalu ardrethi annomestig a gyflwynir gan awdurdodau bilio yng Nghymru neu ar eu rhan.

Mae Atodlen 2 i Reoliadau 2017 yn rhagnodi'r wybodaeth y mae rhaid ei chynnwys yn y nodiadau esboniadol y mae rhaid iddynt fynd gyda hysbysiad galw am dalu.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Atodlen 2 i Reoliadau 2017 o ganlyniad i'r ailbrisio ardrethu annomestig sy'n cael effaith o 1 Ebrill 2023 a'r rheolau rhagnodedig ar gyfer symiau a godir sy'n dod o fewn y disgrifiadau a ragnodir yn Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Symiau a Godir) (Cymru) 2022 (O.S. 2022/1350 (Cy. 272)).

Ystyriwyd cod ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal asesiadau effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2023 No. 3 (W. 2)

# RATING AND VALUATION, WALES

## The Non-Domestic Rating (Demand Notices) (Wales) (Amendment) Regulations 2023

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

The Non-Domestic Rating (Demand Notices) (Wales) Regulations 2017 ("the 2017 Regulations") (S.I. 2017/113 (W. 39)) provide for the contents of non-domestic rates demand notices which are served by or on behalf of billing authorities in Wales.

Schedule 2 to the 2017 Regulations prescribes the information which must be included in the explanatory notes that must accompany a demand notice.

These Regulations amend Schedule 2 to the 2017 Regulations in consequence of the non-domestic rating revaluation which takes effect from 1 April 2023 and the prescribed rules for chargeable amounts which fall within the descriptions prescribed in the Non-Domestic Rating (Chargeable Amounts) (Wales) Regulations 2022 (S.I. 2022/1350 (W. 272)).

The Welsh Ministers' code of practice on the carrying out of regulatory impact assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2023 Rhif 3 (Cy. 2)

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

## Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) (Diwygio) 2023

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *5 Ionawr 2023* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *9 Ionawr 2023* |
| *Yn dod i rym* | *31 Ionawr 2023* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 62 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(**1**), a pharagraffau 1 a 2(2)(h) o Atodlen 9 iddi, ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**).

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) (Diwygio) 2023.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 31 Ionawr 2023.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i hysbysiadau galw am dalu sy'n ymwneud â blynyddoedd ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2023 neu ar ôl hynny, ac a ddyroddir gan awdurdodau bilio Cymru neu ar eu rhan.

(**1**) 1998 p. 41. *Gweler* adran 146(6) am y diffiniad o "prescribed". Diwygiwyd paragraff 1 o Atodlen 9 gan baragraff 89(2) o Atodlen 13 i Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodi 2007 (p. 15). Diwygiwyd paragraff 2(2)(h) o Atodlen 9 gan adrannau 139 a 194(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (p. 42), a pharagraffau 1 a 44(1) a (3) o Atodlen 5 iddi a Rhan 2 o Atodlen 12 iddi, ac adran 8(1) a (3) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 2012 (p. 17).

(**2**) Trosglwyddwyd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol, o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru wedi hynny yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2023 No. 3 (W. 2)

# RATING AND VALUATION, WALES

## The Non-Domestic Rating (Demand Notices) (Wales) (Amendment) Regulations 2023

| | |
|---|---|
| *Made* | *5 January 2023* |
| *Laid before Senedd Cymru* | *9 January 2023* |
| *Coming into force* | *31 January 2023* |

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred on the Secretary of State by section 62 of, and paragraphs 1 and 2(2)(h) of Schedule 9 to, the Local Government Finance Act 1988(**1**), and now vested in them(**2**).

**Title, commencement and application**

**1.**—(1) The title of these Regulations is the Non-Domestic Rating (Demand Notices) (Wales) (Amendment) Regulations 2023.

(2) These Regulations come into force on 31 January 2023.

(3) These Regulations apply to demand notices which relate to financial years beginning on or after 1 April 2023 and are issued by or on behalf of Welsh billing authorities.

(**1**) 1998 c. 41. *See* section 146(6) for the definition of "prescribed". Paragraph 1 of Schedule 9 was amended by paragraph 89(2) of Schedule 13 to the Tribunals, Courts and Enforcement Act 2007 (c. 15). Paragraph 2(2)(h) of Schedule 9 was amended by sections 139 and 194(4) of, and paragraphs 1, 44(1) and (3) of Schedule 5 and Part 2 of Schedule 12 to, the Local Government and Housing Act 1989 (c. 42) and section 8(1) and (3) of the Local Government Finance Act 2012 (c. 17).

(**2**) The powers of the Secretary of State were transferred, in relation to Wales, to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672). The functions of the National Assembly for Wales subsequently transferred to the Welsh Ministers by virtue of section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32).

**Diwygio Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) 2017**

**2.**—(1) Mae paragraff 1 o Atodlen 2 (nodiadau esboniadol) i Reoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) 2017(**1**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn y paragraff o'r enw Gwerth ardrethol, yn lle "2017" rhodder "2023" ac yn lle "2015" rhodder "2021".

(3) Yn y paragraff o'r enw Ailbrisio, yn lle "2017" rhodder "2023" ac yn lle "2015" rhodder "2021".

(4) Yn y paragraff o'r enw Newid yn y gwerth ardrethol, hepgorer y geiriau "Os na fydd y trethdalwr a'r swyddog prisio yn cytuno ar y prisiad o fewn 3 mis i wneud y cynnig, bydd y mater yn cael ei gyfeirio gan y swyddog prisio fel apêl gan y cynigydd i Dribiwnlys Prisio Cymru."

(5) Yn y paragraff o'r enw Y lluosydd ardrethu annomestig, hepgorer y geiriau "ac, ac eithrio mewn blwyddyn ailbrisio, ni all godi fwy na chyfradd y cynnydd yn y mynegai prisiau manwerthu".

(6) Yn y paragraff o'r enw Rhyddhad ardrethi trosiannol—

(a) yn lle "2016" rhodder "2022";

(b) hepgorer y gair "bach";

(c) yn lle "2017" rhodder "2023".

**Amendments to the Non-Domestic Rating (Demand Notices) (Wales) Regulations 2017**

**2.**—(1) Paragraph 1 of Schedule 2 (explanatory notes) to the Non-Domestic Rating (Demand Notices) (Wales) Regulations 2017(**1**) is amended as follows.

(2) In the paragraph entitled Rateable value, for "2017" substitute "2023" and for "2015" substitute "2021".

(3) In the paragraph entitled Revaluation, for "2017" substitute "2023" and for "2015" substitute "2021".

(4) In the paragraph entitled Alteration of rateable value, omit the words "If the ratepayer and the valuation officer do not agree the valuation within 3 months of the proposal being made, the matter is referred by the valuation officer as an appeal by the proposer to the Valuation Tribunal for Wales."

(5) In the paragraph entitled Non-domestic rating multiplier, omit the words "and except in a revaluation year cannot rise by more than the rate of the increase in the retail prices index".

(6) In the paragraph entitled Transitional rate relief—

(a) for "2016" substitute " 2022";

(b) omit the word "small";

(c) for "2017" substitute "2023".

*Rebecca Evans*

Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru
5 Ionawr 2023

Minister for Finance and Local Government, one of the Welsh Ministers
5 January 2023

©Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Jeff James, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd Deddfau Senedd y Brenin.

© Crown copyright 2023

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of His Majesty's Stationery Office and King's Printer of Acts of Parliament.

(**1**) O.S. 2017/113 (Cy. 39), a ddiwygiwyd gan O.S. 2018/122 (Cy. 28) ac O.S. 2020/1250 (Cy. 283).

(**1**) S.I. 2017/113 (W. 39), amended by S.I. 2018/122 (W. 28) and S.I. 2020/1250 (W. 283).

ISBN 978-0-348-39405-4

£4.90